SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

Dogfen Bolisi / Policy Document

# Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd

# Polisi Penderfyniadau

**Crynodeb**

Pwrpas y polisi hwn yw egluro'r broses gwneud penderfyniadau bydd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn ei ddilyn. I sefydlu'r ffiniau, dull ac egwyddorion ac i olrhain y gweithdrefnau am gofnodi a chyhoeddi penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae'r weithdrefn hon wedi cael ei mabwysiadu gan SCHTh Gogledd Cymru.

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | Polisi Gwneud Penderfyniadau |
| **Perchennog y Polisi:** | Prif Weithredwr |
| **Awdur y Polisi:** | Prif Weithredwr |
| **Rhif y Polisi:** | 1 |
| **Dyddiad Gweithredol:** | 04.12.2018 |
| **Dyddiad Adolygu:** | 04.12.2022 |
| **Fersiwn:** | 4.0 |

## Cynnwys

1. Cyflwyniad .......... 2
2. Y Fframwaith Statudol .......... 2
3. Egwyddorion Gwneud Penderfyniadau .......... 4
4. Yr Ymdriniaeth o ran Gwneud Penderfyniadau .......... 4
5. Rheolaethau a Mecanweithiau Lleol .......... 5
6. Y Broses Gwneud Penderfyniadau .......... 4
7. Penderfyniadau Brys .......... 5
8. Materion/Penderfyniadau Cynhennus .......... 6
9. Cofnodi Penderfyniadau .......... 6
10. Gwaharddiadau/Eithriadau .......... 7
11. Proses .......... 8
12. Cyhoeddi penderfyniadau a gwybodaeth yn ymwneud â phenderfyniadau .......... 8
13. Monitro .......... 8

**Y Broses Gwneud Penderfyniadau**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Nod y ddogfen hon yw pennu'r broses gwneud penderfyniadau y bydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ("y Comisiynydd") Gogledd Cymru yn cadw ati, yn unol â Gorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodol) 2011 , (Diwygiad) Gorchymyn 2012, (Diwygiad) Gorchymyn 2013 ("Gorchmynion Gwybodaeth") a deddfwriaeth berthnasol arall. Mae hyn yn cynnwys:-

1.1.1 Sefydlu'r paramedrau, yr ymdriniaeth a'r egwyddorion ar gyfer gwneud penderfyniadau ar ran Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

1.1.2 Amlinellu'r broses gwneud penderfyniadau ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throsedd (Comisiynydd) Gogledd Cymru.

1.1.3 Amlinellu'r gweithdrefnau ar gyfer cofnodi a chyhoeddi penderfyniadau a wneir gan Gomisiynydd Gogledd Cymru.

1.2 Yn bennaf yn sgil cyflawni ei swyddogaethau statudol y bydd y Comisiynydd yn gwneud penderfyniadau; hefyd, mae ar y Comisiynydd ddyletswydd statudol i gofnodi a chyhoeddi penderfyniadau o fudd cyhoeddus arwyddocaol sy'n deillio o arfer y swyddogaethau statudol hyn, pa un a ydynt yn benderfyniadau y bydd y Comisiynydd yn eu gwneud yn breifat neu o ganlyniad i gyfarfod cyhoeddus neu breifat.

1.3 Mae'r angen statudol i gofnodi a chyhoeddi gwybodaeth berthnasol i benderfyniadau a wnaed yn gofyn am elfennau penodol fydd yn sicrhau tryloywder yn ogystal ag unplygrwydd y rhai hynny sy'n gwneud y penderfyniadau. Wrth wneud penderfyniadau bydd y Comisiynydd yn mabwysiadu'r safonau uchaf o gywirdeb, rheoleidd-dra a thryloywder a dim ond er lles y cyhoedd y gwneir unrhyw benderfyniad, gan fynd y tu hwnt i'r gofynion statudol sylfaenol ble bynnag bosibl.

## 2. Y Fframwaith Statudol

2.1 Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf) yn datgan swyddogaethau'r Comisiynydd ac yn darparu'r fframwaith cyfreithiol y bydd ef/hi yn ei ddilyn wrth wneud penderfyniadau. Dan Adran 1(2) o'r Ddeddf mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn gorfforaethau unigol, gyda gweithrediadau'r Comisiynydd yn cael eu holrhain yn Adran 1 (5)-(8). Fel corfforaeth unigol, dim ond pethau mae'r ddeddfwriaeth yn ei fynegi yn amlwg neu o awgrym rheidrwydd gall y cyrff eu cyflawni.

2.2 Nid yw'r Ddeddf yn diffinio sut mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gwneud penderfyniadau, ond mae'n sefydlu'r Panel Heddlu a Throsedd, sydd â chyfrifoldeb i adolygu a chraffu ar benderfyniadau mae'r Comisiynydd yn eu gwneud, felly mae'n

hanfodol i system gadarn gael ei sefydlu. Mae rhai o'r penderfyniadau hyn (fel y praesept arfaethedig ac apwyntiad Prif Gwnstabl) yn gorfod cael eu hystyried mewn ffordd arbennig; fodd bynnag bydd craffu ar benderfyniadau cyffredinol yn cael eu gwneud yn lleol.

2.3 Os oes yna gyhuddiad o gamweinyddu yn cael ei wneud, mae Atodlen 16 paragraff 121 o'r Ddeddf yn dweud yn blaen fod y Comisiynydd yn gallu cael ei ymchwilio gan Gomisiynydd Gweinyddu Lleol yng Nghymru dan ddarpariaethau Adran 25 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1974.

2.4 Dan Orchymyn Comisiynwyr Heddlu a Throsedd (Datganiad Derbyn Swydd) 2012 mae'n ofynnol i'r Comisiynydd wneud datganiad cyhoeddus yn ymrwymo ef/hi i wasanaethu pobl leol heb ofn na ffafriaeth a gosod yn gyhoeddus eu hymrwymiad i fynd i'r afael â'i swydd gydag unplygrwydd, yn ddiduedd ac yn deg.

2.5 Mae Gorchymyn Protocol Plismona 2011 yn gosod y fframwaith y bydd y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn gweithio o fewn iddo.

2.6 Mae Gorchymyn Protocol Plismona 2011 yn nodi fod yn rhaid i bob parti (gan gynnwys y Comisiynydd) ddilyn Egwyddorion Nolan.

2.7 Mae Codau Ymarfer Rheolaeth Ariannol Gwasanaeth yr Heddlu yn egluro'r trefniadau llywodraethu ariannol ac yn nodi fod yn rhaid sicrhau bod egwyddorion llywodraethu da yn cael eu gwreiddio yn y ffordd y mae swyddfa'r Comisiynydd yn gweithredu.

2.8 Mae'r Gorchmynion Gwybodaeth yn pennu'r wybodaeth y mae'n rhaid i'r Comisiynydd ei gyhoeddi ac mae'n cyfeirio'n benodol ar wybodaeth am benderfyniadau. Mae'n datgan y cyfraddau amser a'r gofynion ar gyfer cofnodi a chyhoeddi penderfyniadau a pholisïau perthnasol.

2.9 Bydd fframwaith statudol Gorchmynion Gwybodaeth a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn gosod y safonau cyhoeddi gofynnol.

2.10 Os dadlennir unrhyw wybodaeth bersonol, gwneir hynny o fewn fframwaith cyfreithiol Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC), Deddf Diogelu Data 1998 a Deddf Hawliau Dynol 1998 ac mewn cydymffurfiad â'r ddyletswydd cyfrinachedd dan gyfraith gwlad. Dim ond yr isafswm angenrheidiol o wybodaeth bersonol fydd yn cael ei rhannu a hynny dim ond os bydd gwneud hynny'n cefnogi darpariaeth pwrpasau a swyddogaethau'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Dim ond pan fydd gofyniad cyfreithiol i wneud hynny y gellir rhannu gwybodaeth yn gyfreithlon heb gael caniatâd i wneud hynny.

2.11 Mae ein Polisi Preifatrwydd yn cynnwys gwybodaeth ar sut ydym yn prosesu gwybodaeth bersonol a hawliau pobl o dan RhDDC.

2.12 Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn darparu ar gyfer lefel ychwanegol o fynediad cyhoeddus at wybodaeth. Mae'n rhaid i Awdurdodau Cyhoeddus gyhoeddi gwybodaeth am eu gweithgareddau gan gynnwys y penderfyniadau y maent yn ei

wneud, ac mae hawl gan aelodau'r cyhoedd i ofyn am wybodaeth gan awdurdodau cyhoeddus, yn amodol ar eithriadau penodol.

## 3. Y Broses Gwneud Penderfyniadau

3.1 Yr hyn sy'n hollbwysig o ran sicrhau y gwneir penderfyniadau cadarn seiliedig ar wybodaeth dda yw prosesau llym, rheolaeth dda ac arweinyddiaeth effeithiol. Bydd y rhestr wirio ganlynol yn cael ei defnyddio cyn gwneud penderfyniadau a strategol allweddol:

a) Deall anghenion, adnoddau a blaenoriaethau lleol ac ystyried safbwyntiau partneriaid a rhanddeiliaid,

b) Cytuno ar y canlyniadau yn seiliedig ar y wybodaeth hon, a bydd y Prif Gwnstabl yn pennu sut y gellir eu darparu mewn modd effeithiol, effeithlon, teg a chynaliadwy,

c) Sefydlu'r holl ffeithiau perthnasol,

ch) Ymgynghori â'r rhai hynny a allent yn rhesymol ystyried y gallai'r penderfyniad yn eu heffeithio er gwaeth neu'n arwyddocaol,

d) Ystyried yr holl ddulliau gweithredu rhesymol sydd ar agor i'r Comisiynydd,

dd) Ceisio cyngor arbenigol priodol,

e) Ystyried risg, perfformiad a gwybodaeth ariannol,

f) Sicrhau y ceir gwerth am arian.

## 4. Yr Ymdriniaeth o ran Gwneud Penderfyniadau

4.1 Bydd y Comisiynydd yn dangos cywirdeb a rheoleidd-dra yn ei ddulliau gwneud penderfyniadau, nid dim ond fel mater o lywodraethu da ond hefyd fel mater o gyfraith. Felly, bydd yr ymdriniaeth o ran gwneud penderfyniadau yn cadw at y Safon Llywodraethu Da ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Arferion Gweinyddol Da.

4.2 Bydd penderfyniadau'r Comisiynydd yn disgyn ar hyd graddfa symudol o fudd cymunedol, cymhlethdod ac effaith (e.e. o'r lleol i'r cenedlaethol). Bydd y raddfa gwneud penderfyniadau symudol hon fel arfer yn gofyn am raddfa gysylltiedig a chymesur o ran faint o wybodaeth, cefnogaeth, herio, craffu ac ymgynghori a fydd yn angenrheidiol cyn ac ar ôl gwneud y penderfyniad

4.3 Bydd penderfyniadau yn amrywio o rai unigol, mewnol, isel eu heffaith drwodd i rai o fudd cyhoeddus, canlyniadau a chost fwy arwyddocaol. Mewn perthynas â'r penderfyniadau hynny sydd ar begwn uchaf y raddfa symudol, yn y dosbarth 'cymhlethdod' a 'budd cyhoeddus arwyddocaol' mae'n debygol y bydd arweiniad, arferion neu weithdrefnau eisoes yn bodoli a fydd yn ganllaw ar gyfer y camau i'w cymryd cyn gwneud y penderfyniad.

## 5. Rheolaethau a Mecanweithiau Lleol

5.1 Er mwyn sicrhau llywodraethu da mewn perthynas â gwneud penderfyniadau bydd y Comisiynydd yn pennu'r trefniadau mewn Cynllun Gweithredu a fydd yn ymwneud â dirprwyaethau, cydsyniadau, rheoliadau ariannol a rheolau sefydlog contractau.

5.2 Bydd trefniadau llywodraethu'r Comisiynydd yn nodi'r paramedrau ar gyfer penderfyniadau fydd yn cael eu dirprwyo i staff yr heddlu a staff Swyddfa'r Comisiynydd, ynghyd ag unrhyw amodau y bydd y Comisiynydd yn eu pennu.

## 6. Egwyddorion Gwneud Penderfyniadau

6.1 **Gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar wybodaeth dda:** bydd penderfyniadau a wneir yn seiliedig ar wybodaeth o ansawdd dda a chyngor clir a diduedd er mwyn lleihau'r posibilrwydd na fydd penderfyniad yn cyflawni amcanion y Comisiynydd neu y bydd iddo ganlyniadau anfwriadol.

6.2 **Bydd y broses gwneud penderfyniadau yn agored ac yn dryloyw**: er mwyn gwneud penderfyniadau seiliedig ar wybodaeth dda bydd y Comisiynydd yn rhoi'r ystyriaeth briodol i bob parti perthnasol a bydd ymgynghoriad ac ymgysylltiad yn ofyniad statudol ar gyfer rhai penderfyniadau.

6.3 **Talu 'sylw dyladwy' o fewn y broses gwneud penderfyniadau:** Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a phartneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol i ystyried cynlluniau a blaenoriaethau pob sefydliad, i fodloni eu hunain fod y cynlluniau a'r blaenoriaethau wedi'u dehongli'n gywir ac, os yn briodol, dweud yn glir beth oedd y rhesymau dros symud oddi wrth y cynlluniau hynny.

6.4 **Bod yn fanwl gywir ac yn dryloyw o ran sut y gwneir penderfyniadau:** Bydd y broses gwneud penderfyniadau yn cadw at yr egwyddorion a bennir yn yr arweiniad Arfer Gweinyddol Da.

6.5 **Bydd pob penderfyniad sydd o fudd cyhoeddus arwyddocaol yn cael ei gofnodi a'i gyhoeddi.** Mae'r gofyniad statudol i gofnodi a chyhoeddi gwybodaeth sy'n ymwneud â phenderfyniadau wedi'i bennu yng Ngorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodol) 2011

6.6 Bydd y Comisiynydd yn cynnal y safonau uchaf o unplygrwydd a gonestrwydd wrth wneud penderfyniadau, fel y'i pennir yn egwyddorion Nolan, a bydd yn cadw at y cod ymddygiad ar gyfer Comisiynwyr.

## 7. Penderfyniadau Brys

7.1 Efallai y bydd achlysuron pan fydd yr amgylchiadau y bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau ynddynt yn golygu mai dim ond rhai elfennau o'r rhestr wirio fydd yn cael eu defnyddio, er enghraifft byddai penderfyniad brys yn cyfyngu ar faint o

ymgynghori a allai ddigwydd  Fodd bynnag, bydd popeth bosibl yn cael ei wneud i sicrhau bod penderfyniadau brys yn cael eu cadw i'r isafswm.

## 8. Materion/Penderfyniadau Cynhennus

8.1 Gan gydnabod dyletswydd y Prif Gwnstabl o ran darparu plismona gweithredol, bydd achosion prin yn codi pan fydd y llinell rhwng plismona strategol a gweithredol yn aneglur.  Bydd y materion/penderfyniadau hyn yn cael eu dosbarthu fel rhai 'cynhennus'.  Er mwyn osgoi gwrthdaro posibl o ran pwy ddylai wneud y penderfyniad, bydd yr egwyddor 'sylw dyladwy' yn cael ei rhoi ar waith.

8.2 Gellir diffinio penderfyniadau cynhennus fel rhai o natur wleidyddol, sy’n ymwneud â materion a fydd o ddiddordeb mawr i'r cyhoedd/cyfryngau, materion sy'n debygol o effeithio ar gymuned neu gymunedau a materion risg uchel (e.e. risg i enw da, ffydd y cyhoedd) a gallant gynnwys y canlynol:

8.2.1 Gweithredoedd sy’n gwrthdaro â’r blaenoriaethau a bennwyd yng nghynllun Heddlu a Throsedd y Comisiynydd ac a fyddant yn effeithio ar ddarpariaeth canlyniadau’r Cynllun,

8.2.2 Newidiadau i Bolisïau – penderfyniad a fydd yn cael effaith uniongyrchol ar gymunedau lleol, er enghraifft ad-drefnu plismona lleol,

8.2.3 Materion Gwleidyddol – gallai’r rhain ymwneud â nifer fawr o feysydd a gellid llunio rhestr wirio o’r Cynllun Heddlu a Throsedd.

## 9. Cofnodi Penderfyniadau

9.1 Er mwyn sicrhau fod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cadw at yr egwyddor o fod yn agored ac yn dryloyw, bydd gwybodaeth a ddefnyddir i hysbysu'r broses o wneud penderfyniadau'n cael ei chofnodi mewn dogfennau ac adroddiadau a ddefnyddir gan swyddogion a'r Comisiynydd.  Gwneir cofnod manwl cywir o drafodaethau a gynhelir cyn gwneud penderfyniad a bydd y cofnod hwn yn cynnwys y rhesymeg y tu ôl i benderfyniadau i beidio mynd ar ôl rhai opsiynau.

9.2 Bydd gofynion Cynllun Cyhoeddi’r Comisiynydd sy'n cynnwys gofynion y Gorchmynion Gwybodaeth yn cael eu diwallu o safbwynt gwneud a chofnodi penderfyniadau, gan gynnwys penderfyniadau o fudd cyhoeddus arwyddocaol.

9.3 Bydd y diffiniad o ‘benderfyniadau o fudd cyhoeddus arwyddocaol’ gael ei bennu yn seiliedig ar y ffeithiau perthnasol ac ar sail achos wrth achos.  Fodd bynnag mae arweiniad cyffredinol i’w weld isod:-

a) penderfyniadau sy’n gofyn am wariant y tu allan i Gyllidebau Cyfalaf a Refeniw'r flwyddyn.

b) penderfyniadau ar wariant dros y terfynau perthnasol mewn perthynas â dirprwyo cyfrifoldebau i swyddogion fel y nodir yn y Rheoliadau Ariannol.

c) penderfyniadau'n ymwneud â staff/swyddogion ar lefel Uwch Swyddog o fewn yr Heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

ch) penderfyniadau fydd yn dylanwadu ar ddarpariaeth gwasanaeth i gymunedau Gogledd Cymru

d) penderfyniadau polisi cysylltiedig â strwythur yr Heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

dd) perfformiad yr Heddlu yn erbyn y targedau yn y Cynllun Heddlu a Throsedd

e) Unrhyw faterion y bydd y Comisiynydd yn ystyried eu bod o fudd cyhoeddus arwyddocaol.

9.4 I ddibenion enghreifftiol yn unig y mae'r canllawiau cyffredinol hyn ac mae'r wybodaeth fydd yn cael ei chyhoeddi yn gorgyffwrdd â gofynion eraill y Gorchmynion Gwybodaeth. Meini prawf allweddol i'w hystyried wrth bennu a ddylid cyhoeddi penderfyniad yw ei berthnasedd i ddyletswydd sylfaenol y Comisiynydd i sicrhau bod yr Heddlu yn effeithiol ac yn effeithlon a'r ddyletswydd sydd ar y Comisiynydd i gael barn y gymuned ynglŷn â phlismona a'i rôl ef/hi fel cynrychiolydd etholedig.

## 10. Gwaharddiadau/Eithriadau

10.1 Er mai'r egwyddor o fod yn agored ac yn dryloyw yw'r peth pwysicaf o ran cynnal ffydd a hyder pobl Gogledd Cymru, bydd bob amser rhywfaint o wybodaeth y mae'n rhaid ei chadw'n gyfrinachol. Mae enghreifftiau'n cynnwys gwybodaeth lle all ei ddatgelu:

a) bod yn erbyn diogelwch cenedlaethol,

b) rhoi rhywun mewn perygl,

c) niweidio ymdrechion i atal neu ddatgelu troseddau, dal troseddwyr neu weinyddu cyfiawnder,

ch) wahardd rhag cael ei dadlennu drwy ddeddfiad,

d) ymwneud a gwybodaeth gyfrinachol berthnasol o fudd masnachol neu bersonol,

dd) a gafwyd dan gyfrinachedd masnachol.

10.2 Yn ogystal, gallai fod cyfyngiadau ar gyhoeddi gwybodaeth am y rhesymau canlynol:

a) amodau diogelwch ar wybodaeth sy'n cael ei dal gan yr heddlu ac na ellir felly ei gwneud yn gyhoeddus,

b) posibilrwydd y bydd amodau statudol yn cael eu torri os dadlennir gwybodaeth e.e. data personol, sicrhau cyfrinachedd gwybodaeth a ddarperir i drydydd parti.

10.3 Ble bynnag bosibl rhoddir ystyriaeth ofalus i ddosbarthiad gwybodaeth gyfyngedig er mwyn sicrhau fod y cyhoedd yn cael mynediad at yr amrywiaeth ehangaf bosibl o wybodaeth y mae'n briodol ei dadlennu.

## 11. Proses

11.1 Bydd yr Arweinydd Prosiect yn cyfeirio'r ffurflen ad-gyfeirio penderfyniad at y Swyddog Monitro ar gyfer sêl bendith cyn iddo fynd at y Comisiynydd Heddlu a Throsedd am benderfyniad ffurfiol.

11.2 Rhaid i'r penderfyniad gynnwys yr achos busnes neu bapurau cefnogi i alluogi'r Swyddog Monitro i gymeradwy'r cyfeirio.

11.3 Rhaid i'r ffurflen gyfeirio penderfyniad gynnig gwybodaeth ar sut y bydd y penderfyniad yn cael effaith ar y rheini sy'n byw ac yn gweithio yng Ngogledd Cymru ac yn rhoi ystyriaeth i flaenoriaethau plismona, yn ariannol, cyfreithiol a chydag oblygiadau gwerthoedd cymdeithasol, i faterion cydraddoldeb a hawliau dynol a'r effaith ar yr iaith Gymraeg fel bo'n briodol.

11.4 Bydd asesiad llawn o gydraddoldeb, preifatrwydd a diogelu data yn digwydd fel bo'r galw gan Arweinydd y Prosiect.

## 12. Cyhoeddi penderfyniadau a gwybodaeth yn ymwneud â phenderfyniadau

12.1 Y disgwyliad lleiaf yw y bydd y Comisiynydd yn cydymffurfio â'r holl ofynion statudol perthnasol i gyhoeddi, ond bydd hefyd yn cyhoeddi penderfyniadau sy'n uniongyrchol berthnasol i'w ddyletswyddau statudol ef/hi er mwyn sicrhau Gwasanaeth Heddlu effeithiol ac effeithlon a'i fod ef/hi yn gallu cynrychioli buddiannau'r gymuned yn llawn drwy ymgysylltu mewn deialog a fydd yn sicrhau fod popeth yn hysbys i'r cyhoedd.

12.2 Bydd dulliau cyfathrebu priodol yn cael eu defnyddio, gan gynnwys gwefannau, datganiadau i'r wasg/cyhoedd, cyfarfodydd cyhoeddus a chyfryngau cymdeithasol.

## 13. Monitro

13.1 Bydd y Polisi hwn yn cael ei adolygu gan y Prif Weithredwr bob pedair mlynedd.